COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DLl 257

Amseru: Arferol

Teitl: Estyn y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:

Yn unol â chofnod penderfyniad DLl219, cymeradwyodd y CHTh y cyfnod estyniad 12 mis cyntaf a ganiateir o fewn y cytundeb gwreiddiol a roddwyd i fudiad Pobl ar gyfer cyflenwi'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr. Mae hyn yn dwyn y dyddiad terfyn i 2 Hydref 2022.

Yn dilyn canlyniadau cadarnhaol pellach a arddangosir gan waith gwireddu manteision, argymhellir estyn y cytundeb ymhellach, gan fynd â dyddiad terfyn y cynllun i Hydref 2024.

Bydd yr estyniad hwn yn cynnwys adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y cynllun a gwerthusiad parhaus lefel y cyfeiriadau i'r cynllun sy'n cael eu gwneud gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn nawr yn ffurfio rhan o'r broses reoli o fewn yr Heddlu a bydd y CHTh yn gweld data parhaus sy'n dangos cyfran y troseddau cymwys sy'n cael eu cyfeirio.

Os bydd data'n dangos nad yw'r cynllun yn cael ei uchafu, mae CHTh yn cadw'r hawl i ddiwygio cyllideb y cynllun yn briodol yn dilyn adolygiad blynyddol o fewn y cyfnod estyniad.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Argymhelliad:
Bod CHTh yn cymeradwyo'r cyfnod estyniad sy'n weddill ar gyfer y cytundeb Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr, gan ddwyn y dyddiad terfyn i 2 Hydref 2024. Mae hyn yn cynnwys adolygiad blynyddol o'r gallu o fewn y cynllun a chyfraddau cyfeirio gan Heddlu Dyfed-Powys.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 28/06/2022**